Rhifyn 4, Mehefin 08 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Mwynhewch y gwyliau
mae blwydd-lyfr a blwydd-ddalen yn y pecyn amgaeedig

Ymddeoliad Gruff Hughes – dyn UCAC

Daeth i weithio i UCAC ddeng mlynedd yn ôl gyda phrofiad helaeth ym myd addysg fel athro ac fel Pennaeth yn y sector cynradd. Roedd yn hen gyfarwydd â thrin pobl a'u problemau ac roedd ei gefndir yn golygu ei fod hefyd yn gyfarwydd iawn â'r datblygiadau diweddaraf ym myd addysg. Bu'n Swyddog Maes effeithiol yn y Gogledd am saith mlynedd, gan hefyd ysgwyddo baich cyfrifoldebau Is-Ysgrifennydd Cyffredinol am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn. Bu'n gweithredu fel Ysgrifennydd Cyffredinol Gweithredol ar adegau hefyd, cyn treulio'r tair blynedd diwethaf fel Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC.

Amddiffynnodd fuddiannau athrawon yn ddigymrodedd, gan ymladd i gael gwell telerau ac amodau gwaith iddynt mewn pwyllgorau digon di-syfl yng Nghaerdydd a Llundain. Enynnodd barch cyd-undebwyr yng Nghymru a Lloegr am ei safiad diwyro dros ei argyhoeddiadau ac egwyddorion, a chododd broffil yr undeb yn broffesiynol ymysg addysgwyr ac aelodau fel ei gilydd. Mynnodd fod yn driw i'w argyhoeddiadau drwy gydol y cyfnod, gan sefyll yn gadarn a diwyro o blaid Cymreictod a'r gobaith o sefydlu cyfundrefn addysg annibynnol i Gymru.

Bu'n bennaeth teg a chadarn ar staff UCAC, gan ennyn eu cyfeillgarwch, parch, cefnogaeth a'u cydweithrediad parod, gyda'i 'ie' yn 'ie', a'i 'nage' yn 'nage' bob amser.

Daeth aelod i'r babell mewn un Eisteddfod i holi a gâi siarad â "dyn UCAC"! Dyna fu o yn ystod ei gyfnod gyda'r undeb, yn hybu a datblygu, annog ac argymell. Cyflwynwyd rhodd iddo ar ran yr aelodau yn y Gynhadledd Flynyddol eleni, a'r gynulleidfa ar ei thraed yn rhoi cymeradwyaeth wresog iddo am ei lafur a'i wasanaeth.

Mae'r wyrion a'r wyresau yn edrych ymlaen cymaint â fo at ei ymddeoliad, er mwyn iddynt gael mwy o gwmni eu taid direidus, ac rydym yn dymuno ymddeoliad hir a hapus iddo ef a'i wraig, Nerys.

Llythyr gan Gyfarwyddwr Addysg Ceredigion

Mae UCAC yn croesawu ymateb Gareth Jones, Cyfarwyddwr Addysg Ceredigion i'r manylion a ymddangosodd yn yr *Athro* rhifyn 3, Mai 2008 am benderfyniadau Cynhadledd Flynyddol 2008 ynghylch Athrawon Ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen (gweler copi llawn o'r llythyr dros y dudalen).

Nid bwriad UCAC wrth drafod unrhyw fater sydd yn codi ar lawr y Gynhadledd yw sarhau athrawon sydd yn gweithio'n galed o fewn ein siroedd, gan gynnwys athrawon ymgynghorol. Pan fo Pwyllgor Sir yn cyflwyno cynnig i'w drafod ar lawr y Gynhadledd dyna beth sydd yn digwydd, sef trafodaeth gyda phleidlais yn dilyn.

Nid yw'r Cynnig / Penderfyniad yn adlewyrchiad ar safon gwaith Tîm Cefnogi Cyfnod Sylfaen Ceredigion ond yn hytrach yn tynnu sylw at ddymuniad athrawon i dderbyn y fath gefnogaeth yn gyson yn eu dosbarthiadau yn ystod cyfnod o drawsnewid.

Mae UCAC yn ymwybodol iawn o'r caledi ariannol sydd yn wynebu'r Awdurdodau Addysg Lleol ar hyn o bryd ac yn ymwybodol o ba mor anodd yw cynnal gwasanaethu ymgynghorol pan fo prinder arian. Mae UCAC yn achub ar bob cyfle i alw am fwy o arian i boced addysg er lles ein holl athrawon a gwasanaethau addysg.

Os oes gennych sylw ar y mater hwn neu unrhyw fater arall yr hoffech weld trafodaeth arno yn *Yr Athro* cysylltwch drwy ucac@athrawon.com neu 01970 639950.

Llythyr T Gareth Jones – tudalen 2

t2 Dysgu ar ôl Ymddeol t3 Mamolaeth t4 Adnoddau

Parhad o'r dudalen flaen

Dyma lythyr T Gareth Jones:

Penderfyniadau – Tudalen 4 Pwynt B, Penderfyniad 3

Carwn ddatgan fy siom a'm syndod i weld y penderfyniad ar Athrawon Ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen a gyflwynwyd gan Gymdeithas Ceredigion yn eich Cynhadledd Flynyddol eleni.

Mae'r cyfeiriad at 'gefnogaeth ymarferol annigonol ar lawr y dosbarth' yn creu cryn ddryswch i mi am nifer o resymau. Cydnabyddir gwaith Tîm Cefnogi Cyfnod Sylfaen Ceredigion yn Sirol a Chenedlaethol. Derbyniwn geisiadau yn gyson oddi wrth athrawon o du allan i'r Sir i weld yr arfer sy'n bodoli eisoes. Derbynnir sylwadau canmoladwy iawn oddi wrth ein hysgolion ein hunain ac mae'r berthynas agos ac adeiladol sy'n bodoli rhyngddynt a'r Tîm yn tystiolaethu i hyn.

Prif rôl y tîm hyfforddi ydy cynnig hyfforddiant ac arweiniad i alluogi'r ymarferwyr i weithredu yn effeithiol ar lawr y dosbarth. Fel rhan o hyn yn gyson cynigir ymweliadau ag ysgolion, cyfleoedd rhwydweithio, bod ar gael ar amserau penodol i gynghori a chefnogi, paratoi adnoddau cefnogol, ymarferol, a chynorthwyo athrawon i dargedu cyllid ychwanegol er mwyn caniatáu datblygiad proffesiynol pellach. Rhoddir cyngor unigol i ysgolion ar yr amgylchedd ddysgu. Maent hefyd yn modelu'r dysgu ar lawr y dosbarth ac yn coetsio athrawon unigol ar ddulliau dysgu sgiliau meddwl. Cefnogant athrawon unigol o fewn eu hysgolion, pan fo galw, i ddatblygu strategaethau dysgu effeithiol. Mae hyn oll yn gymorth i'r athrawon i weithredu yn eu sefyllfa ddysgu unigryw eu hunain.

Er mai ym Medi 2008 y daw'r Cyfnod Sylfaen yn weithredol nid yw'r ffordd yma o weithio yn newydd o bell ffordd i ni fel Sir. Nid rhywbeth a ddaeth dros nos ydy'r gweithredu o safon uchel a welir ac a gydnabyddir yn ein hysgolion a thu hwnt i ffiniau'r Sir.

Fel undeb sydd yn cefnogi ac yn amddiffyn eu hathrawon, mae'n syndod ac yn siom eich bod yn barod i gefnogi datganiad fel hwn sy'n pwyntio bys yn uniongyrchol at nifer fach o bobl o fewn y proffesiwn sydd hefyd yn athrawon ac wedi profi eu harbenigedd yn y maes hwn. Nid ydynt yn haeddu eu sarhau – a'u sarhau yn gyhoeddus hefyd – yn y fath fodd. Mae'r datganiad hwn wedi achosi loes a gofid i ni fel Sir, ond yn arbennig felly i'r Tîm bach gweithgar sydd wedi ymrwymo yn llwyr i arwain a chefnogi holl athrawon y Sir yn y maes cyffrous, arloesol hwn. Mae llawer o staff yr Adran yn wir yn perthyn i UCAC ac yn teimlo mwy o loes o'r herwydd.

Carwn pe baech yn ystyried cyfeirio at ein teimladau – neu gyhoeddi'r llythyr hwn – yn eich rhifyn nesaf o'r *Athro*.

Yr eiddoch yn gywir,
T Gareth Jones
(Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol)

Newidiadau i'r Ffordd y Cyfrifir eich Cyflog Pensiynadwy

Os ydych chi'n ymddeol cyn 31 Rhagfyr 2008, cyfrifir eich cyflog cyfartalog trwy ddefnyddio'r uchaf o'r dulliau isod:

1 y cyflog uchaf o unrhyw 365 diwrnod cyfredol o wasanaeth llawn pensiynadwy, os yw'n ddilynol neu beidio, yn ystod y tair blynedd diwethaf o wasanaeth pensiynadwy
2 mae'r cyflogau am y deng mlynedd diwethaf yn cael eu codi yn unol â chwyddiant, gan ddefnyddio'r *Retail Price Index* (RPI); defnyddir y cyfartaledd o'r tair blynedd gyfredol orau yn y deng mlynedd diwethaf, gan gynnwys chwyddiant
3 y cyflog pensiynadwy a dderbyniwyd yn y deuddeg mis o gyflogaeth cyn y dyddiad ymddeol

Bydd y rhan fwyaf o athrawon sydd yn colli eu Pwyntiau Rheolaethol yn Ionawr 2008 yn elwa o ddull 2 wrth ymddeol, oherwydd cynhwysir eu cyflog sy'n cynnwys y Pwyntiau Rheolaethol. Ar ôl deng mlynedd, disgwylir y bydd cyflogau athrawon wedi codi'n uwch na'r cyflogau oedd yn cynnwys y Pwyntiau Rheolaethol.
O Ionawr 1af 2009 ymlaen, defnyddir dulliau 2 a 3 yn unig.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Robert Howells
Is-Lywydd: Emrys Wynne
Ysgrifennydd Cyffredinol: Gruff Hughes
Golygydd *Yr Athro*: Gwenllïan Dafydd
Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Nan Williams, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ Ffôn: 01970-639950
Ffacs: 01970-626765 E-bost: ucac@athrawon.com www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Dysgu ar ôl Ymddeol

Ydych chi'n ymddeol eleni ar eich pensiwn yn llawn? Beth yw'r rheoliadau os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith cyflenwi ar ôl ymddeol?

1 Bydd rhaid cael o leiaf un diwrnod o doriad cyn dechrau gweithio.
2 Unwaith y dechreuwch chi weithio, bydd y TPS yn anfon ffurflen i'w llenwi – tystysgrif ail gyflogaeth; bydd yn rhaid llenwi hon. Eich cyfrifoldeb chi fydd hysbysu'r TPS eich bod yn parhau i weithio fel athro cyflenwi.
3 Mae cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei ennill ar ôl derbyn eich pensiwn yn llawn; y cyfyngiad yw nad yw eich enillion yn ystod y flwyddyn a'r pensiwn a dderbynnir i fod yn fwy na'r cyfartaledd cyflog y cyfrifwyd eich pensiwn arno. Os aiff dros hyn, bydd eich pensiwn yn cael ei leihau, ond ddim yn barhaol.

Nid oes cyfyngu ar eich enillion os ydych wedi derbyn eich pensiwn wedi'i leihau yn actiwaraidd neu wedi dewis ymddeoliad graddol.

Ers 1 Ionawr 2007, ceir cyfraniadau tuag at y Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer unrhyw waith dysgu pellach (llawn neu ran amser), os nad ydych wedi dewis "optio-allan", yn unol â'r rheolau canlynol:

1 Mae'n rhaid bod yn y cynllun am 365 diwrnod, er enghraifft o'r ail o Fedi hyd at yr ail o Fedi'r flwyddyn ganlynol
2 Nid oes rhaid gwneud blwyddyn lawn o waith, sef 195 o ddyddiau cyflenwi; rhaid gweithio am o leiaf 30 diwrnod yn ystod y flwyddyn
3 Ni fyddwch yn dechrau cynllun pensiwn newydd, ond yn hytrach bydd unrhyw gyfraniad a wneir, unwaith y byddwch wedi cyflawni'r gofynion, yn ychwanegu at eich pensiwn presennol.
4 Nid oes yn rhaid aros nes y byddwch yn 65 oed cyn y gellir rhyddhau'r pensiwn a'i ychwanegu at eich pensiwn presennol

Cefnogaeth i'r Dysgwyr

Diolch i **Menna Jones**, Gwasanaeth Gwella Ysgolion Bro Morgannwg, am dynnu sylw at ei hadnoddau ar gyfer dysgu ail-iaith. Mae wedi paratoi 4 uned ar gyfer y bwrdd gwyn rhyngweithiol neu gyfrifiadur ar gyfer ystod o oedran ac maent ar gael ar NGFL i chi bori drwyddynt.

Ewch i'r wefan: **www.ngfl-cymru.org.uk**, yna dewis Cymraeg, dewis CA1/CA2/CA3, ac yna yna Cymraeg Ail Iaith.

Mae'n gyfres o unedau rhyngweithiol i'w defnyddio o flaen y dosbarth i gyflwyno geirfa a phatrymau iaith i rai sydd yn dechrau dysgu Cymraeg (GCaD Cymru).

Ydych chi'n addysgu pobl ifanc 14-19 oed?

Ydych chi'n gweithio mewn coleg trydyddol, ysgol neu goleg addysg bellach?
Byddai UCAC yn falch o dderbyn eich sylwadau am effaith y datblygiadau 14-19 arnoch chi a'ch sefydliad. Mae'r agenda yn un sydd wrthi'n datblygu ond sut mae'r pwyslais ar weithio mewn partneriaeth wedi effeithio arnoch chi hyd yn hyn? Oes gennych chi farn am y cyrsiau sydd ar gael? Beth yw eich barn chi am rai o'r syniadau yn y Cynigion ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) a'r heriau e.e.

- y bwriad i sefydlu cwricwlwm lleol o dan arweinyddiaeth AALl ar gyfer disgyblion 14-16 ac o dan arweinyddiaeth y Cynulliad ar gyfer disgyblion 16-19
- creu dyletswydd statudol i sefydliadau gydweithio
- y pwyslais ar gynnig ystod o gyrsiau (a phennu isafswm penodol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol o fewn 5 maes dysgu penodol)
- darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- cyrsiau galwedigaethol addas
- y system gyllido
- a.y.b.?

Cofiwch gysylltu – er mwyn i UCAC glywed eich barn!
ucac@athrawon.com

Gwyliau a chyfnodau mamolaeth

Oherwydd rheolau newydd yn ymwneud â gwyliau statudol bydd rhaid, o hyn ymlaen, sicrhau bod menyw sydd yn cymryd cyfnod mamolaeth yn derbyn ei hawliau llawn o ran gwyliau statudol, sef 24 diwrnod o wyliau (i godi i 28 diwrnod 1af Ebrill 2009). Nid oes hawl cyfrif gwyliau ysgol sydd yn syrthio yn ystod cyfnod mamolaeth fel rhan o'r gwyliau statudol.

Nid yw'r rheolau newydd yn mynd i effeithio ar y rhan fwyaf o athrawon ac ysgolion gan ei fod yn debygol y bydd cyfnod gwyliau ysgol cyn, neu ar ôl, y cyfnod mamolaeth yn ddigonol, ond bydd rhai athrawon yn cael eu heffeithio. Felly, os ydych yn mynd ar gyfnod mamolaeth neu'n bennaeth gydag aelod o staff yn mynd ar gyfnod mamolaeth, cyfrifwch y diwrnodau gwyliau'n ofalus.

Os bydd hawl i wyliau ychwanegol, disgwylir i'r athrawes drafod hyn gyda'r ysgol, a bydd modd trefnu cyfnod pan fydd yn addas i'r naill ochr a'r llall.

Mamolaeth – rhybudd dychwelyd i'r gwaith

Mae'r rheolau statudol newydd yn nodi y bydd disgwyl rhoi rhybudd i'r cyflogwr o 56 diwrnod o leiaf cyn dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth (os nad yw'r fam yn cymryd y cyfnod llawn o flwyddyn i ffwrdd o'r gwaith). Serch hynny, mae hawl gan gyflogwr ddisgwyl llai o rybudd neu hyd yn oed dim rhybudd, yn ôl ei ddisgresiwn.

Er mai ysgol sydd yn cyflogi athrawon erbyn hyn, mae telerau'r Llyfr Bwrgwyn yn dal yn berthnasol i bob athro. Gall Awdurdodau Addysg Lleol unigol gynnig telerau gwell – ond nid telerau gwaeth – na'r hyn sydd yn y Llyfr Bwrgwyn.

Yn ôl y Llyfr Bwrgwyn dim ond 21 diwrnod o rybudd y bydd angen i athrawes ei roi os yw'n bwriadu dychwelyd i'r gwaith yn gynnar.

Rali yn Llundain a Lobïo dros Gyflogau

Roedd dydd Llun 9fed Mehefin yn ddiwrnod pwysig a phrysur iawn i Swyddogion UCAC. Tra oedd Gruff Hughes, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, yn mynychu **cyfarfod am y Cyfnod Sylfaen gyda'r Gweinidog, Jane Hutt**, roedd Swyddogion eraill UCAC, Dilwyn Roberts-Young, Eryl Owain ac Elaine Edwards, yn mynychu **Rali yn Llundain a drefnwyd gan y TUC** i brotestio am gyflogau teg i weithwyr yn y sector cyhoeddus. Roeddynt hefyd yn parhau â'r gwaith o lobïo Aelodau Seneddol.

Yn ystod y Rali roedd yr awyrgylch yn y neuadd Central Hall yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster, yn drydanol wrth i siaradwr ar ôl siaradwr o bob maes yn y sector cyhoeddus ddatgan siom a phryder ar ran eu haelodau gyda'r setliadau tâl diweddaraf.

Yn dilyn yr areithiau, aeth eich **Swyddogion i gyfarfod â dau o Aelodau Seneddol Cymru** wnaeth ymateb i ohebiaeth UCAC ar dâl athrawon, sef **Elfyn Llwyd** (Meirionnydd Nant Conwy) a **Hywel Williams** (Caernarfon). Cafwyd cyfarfodydd adeiladol iawn a chyfle i wyntyllu nifer o bryderon gan gynnwys pryderon am amodau gwaith a llwyth gwaith gormodol athrawon.

Roedd Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd, eisoes wedi cyfarfod â **Chris Ruane**, AS Dyffryn Clwyd, ac rydym yn parhau i drefnu cyfarfodydd er mwyn trafod tâl ac amodau gwaith athrawon gyda'ch Aelodau Seneddol. Rydym yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth y mwyafrif o Aelodau Seneddol, ond mae'r ymgyrchu dros godiadau cyflog teg a gwelliannau mewn amodau gwaith a llwyth gwaith yn parhau.

Os nad ydych wedi anfon y cerdyn post at eich Aelod Seneddol hyd yn hyn, gwnewch hynny ar frys!

Elaine Edwards, Swyddog Polisi

Sgram!

Dyma gasgliad o gerddi blasus ond syml gyda lluniau lliwgar a deniadol. Ceir cerddi ar amryw o themâu gwahanol gan gynnwys bwyd, dillad, teithio a'r tywydd, a cheir cyfuniad o gerddi gwreiddiol, cyfoes a rhai mwy traddodiadol.

Mae **geirfa ar bob tudalen** sy'n gwneud y casgliad yn addas ar gyfer **dysgwyr yn ogystal â siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf**. Gall darllenwyr llai hyderus eu hiaith hefyd fwynhau'r **cryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r llyfr**. Mae hwn yn cynnwys amrywiaeth o leisiau'n adrodd y cerddi, gan gynnwys yr actores Rebecca Harries, a enwebwyd am wobr actores orau BAFTA Cymru yn ddiweddar.

Mae'r llyfr yn £6.99 (yn cynnwys CD sain) ac ar gael o wefan Awen – www.awenmedia.com – neu yn eich siop lyfrau leol.

Bang! Cwrs canu a dawnsio yr Urdd

Tybed a wyddoch am unrhyw bobl ifanc fyddai'n hoffi mynd ar gwrs **dawns, drama, cerddoriaeth a dylunio** am wythnos yn yr haf?

Mae digwyddiad BANG! yn agored i blant o 10 i 15 oed o bob gallu, ac mae dau gwrs wythnos: y naill yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg.

Mae lle i 60 o blant ar bob cwrs a'r gost yw £225 am wythnos, gan gynnwys pob pryd bwyd a thocyn i weld *Chitty Chitty Bang Bang*. Mae'r cwrs yn Gymraeg yn rhedeg o **24 i 29 Awst** a'r un Saesneg o **17 i 22 Awst**.

Cynhelir y digwyddiad ar y cyd rhwng Cwmni Theatr Hijinx, Opera Cenedlaethol Cymru, yr Urdd, Diversions a Chanolfan Mileniwm Cymru, a bydd y plant yn manteisio ar eu harbenigedd.

I archebu lle, cysylltwch â'r Urdd ar 02920 635678. Am ragor o fanylion, ewch i wefan Canolfan Mileniwm Cymru: www.wmc.org.uk/bang

CEFNOGWCH WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG
7-12 GORFFENNAF 2008

Wythnos Llyfr yn Anrheg – 7 i 12 Gorffennaf 2008

Eleni mae'n **Flwyddyn Darllen Genedlaethol** – blwyddyn i dynnu sylw at bwysigrwydd darllen ac i ddathlu'r pleser a'r mwynhad a geir trwy'r gair ysgrifenedig. Y mae Cyngor Llyfrau Cymru (gyda nawdd Llywodraeth y Cynulliad) yn cydlynu gweithgareddau'r flwyddyn yng Nghymru ac yn cynnal nifer o ymgyrchoedd er mwyn cefnogi amcanion y flwyddyn arbennig hon.

Un o brif ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru fydd yr ymgyrch **Wythnos Llyfr yn Anrheg** – sef canolbwyntio ar annog pobl o bob oed i roi llyfrau yn anrhegion i ffrindiau a theulu. Dyma ymgyrch y gall pawb drwy Gymru ymuno â hi, gan roi sylw gwych i lyfrau ac i ddarllen!

Os yw eich ysgol chi yn rhoi **anrheg i ddisgyblion Blwyddyn 6** sy'n gadael, beth am roi llyfr yn anrheg? Byddai geiriadur yn ddefnyddiol iawn i unrhyw un, ac yn para oes! Os ydych yn chwilio am anrheg i **gydweithiwr sy'n gadael neu'n ymddeol**, beth am roi llyfr yn anrheg? Ewch i weld beth sydd gan eich siop llyfrau Cymraeg i'w gynnig neu porwch yn www.gwales.com.

2008 Blwyddyn Darllen GENEDLAETHOL

Bydd adran arbennig ar gyfer **Wythnos Llyfr yn Anrheg** ar wefan y Flwyddyn Darllen (www.blwyddyndarllengenedlaethol.org.uk) a bydd cyfle yno i aelodau'r cyhoedd nodi pa lyfrau y byddan nhw'n eu rhoi'n anrhegion yn ystod yr wythnos.

Mae darllen yn sgìl hanfodol ar gyfer pob agwedd ar fywyd ac mae'r Flwyddyn Darllen yn gyfle gwych i dynnu sylw at bwysigrwydd darllen ac i ddathlu pleser a mwynhad y gair ysgrifenedig. Gall darllen agor drysau i fydoedd newydd!

Dylunio a Thechnoleg yn y Cwricwlwm

Dyma lyfr dwyieithog newydd sy'n rhan o'r gyfres **Trafodion Addysg** a gyhoeddir gan Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor. Yr awduron yw Gwyn Pritchard, Aiki Rasinen, Pasi Ikonen, Timo Rissanen, David Barlex, Louise Davies.

Gellir archebu copi drwy anfon siec at Catrin Lewis, Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor, Safle'r Normal, Bangor, Gwynedd LL57 2PZ. Y pris yw £5 yr un yn cynnwys cludiant; £4 am archebion am 5 copi neu fwy; sieciau'n daladwy i 'Prifysgol Bangor'.

Unrhyw ymholiadau pellach: ffôn: 01248 383082 e-bost: addysg@bangor.ac.uk